Darparu ar gyfer

Fy Nghartref

Cyfrif Pob Ceiniog

www.nwha.org.uk

www.clwydalyn.co.uk

www.taiclwyd.com

www.cartreficonwy.org

www.taieryri.co.uk

www.wwha.net

nawr gadewch i ni siarad am arian
helpu pobl i goel gwell cynnig

Anfonir y daflen wybodaeth yma atoch gan fod gennych ddiddordeb mewn dod yn denant i un o'r cymdeithasau tai yng ngogledd Cymru.

Fel tenant i Gymdeithas Dai, gofynnir i chi, ymysg cyfrifoldebau eraill:

- I gymryd gofal o'ch cartref
- I fod yn rhan o'r gymuned
- Dalu eich rhent yn rheolaidd

Pa un ai a ydych chi'n dod yn denant yn y dyfodol ai peidio, mae'n bwysig eich bod chi'n dechrau cynllunio'r ffordd orau o reoli eich arian yn ddoeth.

Prif nod y daflen wybodaeth hon yw pwysleisio'r pwysigrwydd o dderbyn cyngor yn fuan os ydych chi'n profi unrhyw drafferthion ariannol, a gobeithio y bydd yn rhoi rhywfaint o gyngor a syniadau i chi a fydd o gymorth i sicrhau fod Pob Ceiniog yn Cyfrif'.

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Bartneriaeth Cynhwysiad Ariannol Gogledd Cymru ac fe'i hariannwyd yn rhannol gan Fanc Barclays. Hoffem fynegi ein diolch iddynt.

Paratoi ar gyfer eich cartref newydd

Bydd sefydlu eich cartref newydd yn gyfnod cyffrous i chi – ond fe all fod yn gyfnod ingol. Dyna pam mae bob amser yn well cynllunio ymlaen llaw.

Yn ogystal â'r gost o brynu eich dodrefn, carpedi ac offer trydanol, bydd raid i chi roi arian o'r neilltu i dalu am eich biliau rheolaidd, megis rhent, treth y cyngor, trwydded teledu, yswiriant cynnwys eiddo a nwy a thrydan.

Gan ddefnyddio www.moneysavingexpert.com rhestrwch y pethau y byddwch yn gwario arnynt fel eich bod yn gwybod beth allwch chi dalu amdano a faint o arian fydd gennych chi dros ben.

Mae'n syniad da agor cyfrif cynilo fel bod gennych arian wedi ei roi o'r neilltu ar gyfer yr adeg y byddwch yn cael cartref newydd.

Os ydych chi eisoes yn berchen/rhentu mae angen i chi sicrhau eich bod yn "cau i lawr" eich cartref presennol pan ydych yn symud, er mwyn osgoi dyled a dryswch yn y dyfodol. Bydd angen i chi hysbysu Treth y Cyngor, y cwmni dwr, trwydded teledu, yswiriant cynnwys eiddo, darparwyr nwy a thrydan **a** pheidiwch ag anghofio'r asiantaethau budd-dal!

Ymsefydlu'r Hanfodol

Y costau hanfodol pan fyddwch yn derbyn eich cartref newydd yw rhent, treth y cyngor, nwy, trydan, dwr, trwydded teledu ac yswiriant eiddo.

Bydd angen i chi sicrhau eich bod chi'n talu'r **rhent** yn rheolaidd er mwyn osgoi'r risg o golli eich cartref. Byddwch yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwch chi dalu rhent pan fyddwch yn derbyn cynnig o'r eiddo. Os ydych chi'n profi unrhyw anawsterau wrth dalu eich rhent, dylech gysylltu â'ch landlord bob amser.

Os ydych chi ar incwm isel, efallai y gallwch chi dderbyn rhywfaint o gymorth i dalu eich rhent trwy fynd i www.entitledto.com neu gysylltu â'ch Awdurdod Lleol. Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais am Fudd-dâl Tai, efallai y byddwch yn gymwys am **Fudd-dâl Treth y Cyngor.**

Gallwch gymharu cyflenwyr **ynni** trwy fynd i **www.uswitch.com**. Dylech dalu eich biliau trwy'r dull rhataf bob amser, a pheidiwch â gwastraffu ynni ac arian trwy adael offer ar "stand-by".

Nid oes gennych ddewis pwy sy'n cyflenwi eich **dŵr**, ond os ydych chi'n deulu bychan, efallai y bydd yn rhatach i chi gael mesurydd dwr wedi ei osod. **Cofiwch**, gysylltu â'ch landlord yn brydlon os bydd tapiau yn gollwng neu os bydd gorlif, i sicrhau fod y gwaith trwsio yn cael ei wneud mor fuan ag y bo modd.

Mae'n rhaid i chi gael **trwydded teledu** pan yn symud i'ch cartref newydd. Gallwch dalu mewn amrywiol ddulliau, a lleiaenu'r gost dros y flwyddyn. Ffoniwch **0845 601 5526** am fwy o wybodaeth.

Bydd angen i chi drefnu **yswiriant cynnwys eiddo** i'ch diogelu mewn achos o dân, byrgleriaeth neu orlif. Gallwch dderbyn mwy o wybodaeth ynglŷn â hyn trwy gysylltu â'ch landlord.

Pan yn **dodrefnu eich cartref newydd** mae nifer o sefydliadau sy'n cynnig dodrefn ail-law rhagorol , cysylltwch ag un o'r cymdeithasau tai am fanylion. Nid oes raid i chi brynu pob dim ar unwaith, dim ond y pethau hanfodol!

Budd-daliadau

Mae pobl yn aml yn colli allan ar dderbyn yr holl fudd-daliadau sydd ar gael iddynt.

Mae ystod eang o fudd-daliadau a all gynorthwyo i gynyddu eich incwm. Y peth gorau i'w wneud yw derbyn gwiriad hawl i fudd-dal gan eich Canolfan Gynghori lleol, neu fe allwch wneud hyn eich hunan drwy fynd i **www.entitledto.com.**

Fe gyda'r rhan fwyaf o bethau, bydd angen i chi lenwi rhai ffurflenni, a all fod yn rhwystredig ac yn flinedig, ond dyma'r unig ffordd i sicrhau eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth gywir er mwyn eich galluogi i gael yr hyn yr ydych yn gymwys iddo.

Cyflogaeth a Hyfforddiant

Gall chwilio am eich swydd gyntaf, swydd wahanol neu ddychwelyd i weithio fod yn dasg frawychus. Ystyriwch gael peth hyffordiant, a all fod yn ffordd dda o symud ymlaen ar y llwybr i dderbyn swydd.

Y newyddion da yw bod nifer o raglenni a all eich cynorthwyo a'ch cefnogi i chwilio am waith, a rhoi hyffordiant i chi. Dechreuwch trwy gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith, 'Working Links' neu Gyrfaoedd Cymru.

Efallai y gallwch chi ddechrau ar sail fwy achlysurol trwy'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol a grwpiau cymunedol.



Gwneud y mwyaf o'ch arian

Mae pethau y gallwch chi ei wneud i arbed ychydig o arian i chi eich hunan yma ac acw. Ar yr un pryd, gallwch wneud eich cyfraniad chi i'r amgylchedd.

Bwyd

Prynwch fwyd sydd ei angen arnoch ar gyfer y prydau bwyd yn unig. Gwiriwch eich oergell a'ch pantri cyn siopa, gwnewch restr a glynu ato, bydd hyn yn lleihau'r gwariant ar fwyd sy'n cael ei wastraffu.

Cogiwch y cyfan - fel arfer mae'n rhatach a gall fod yr un mor gyflym i baratoi prydau o'r cychwyn.

Tyfu eich hunain – A oes gennych chi ychydig o dir? Lle i botyn neu ddau? Arbedwch ychydig o arian trwy dyfu eich llysiau eich hunain yn ôl y galw.

Prynwch ar-lein – ond sicrhewch eich bod yn prynu o ffynhonnell ddiogel a chyfreithlon.

Cynilo ymlaen llaw ar gyfer y Nadolig trwy glwb cynilo Nadolig yr Undebau Credyd.

Gwisg Ysgol/cinio ysgol am ddim – gwiriwch gyda'ch awdurdod lleol i weld a ydych chi'n gymwys am gymorth.

Dyma rhai ffyrdd o wneud y mwyaf o'ch arian. Hefyd, ewch i:

www.energysavingtrust.org.uk
www.moneysupermarket.com

Bancio, Benthyca a Chynilo

Cyfrifon Banc

Yn y byd sydd ohoni, mae'n profi'n fwy anodd i ymdopi heb gyfrif banc. Mae cael cyfrif banc yn rhoi nifer o i chi, megis:

- Dewis ehangach o ddulliau i dalu eich biliau
- Talu trwy ddebyd uniongyrchol a all fod yn rhatach
- gellir talu budd-daliadau'r wladwriaeth yn uniongyrchol i'ch cyfrif
- Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn gofyn am daliadau uniongyrchol o gyfrif banc

Os nad oes gennych gyfrif banc, efallai yr hoffech chi ystyried:

Cyfrif Banc Syfaenol – yn eich galluogi i dderbyn arian a thalu biliau ac ar gael i bawb gan nifer o Fanciau'r Stryd Fawr. .

Undebau Credyd – yn cynnig cynilion a benthyciadau cystadleuol iawn. Cwmniau cydweithredol lleol nid er elw. Mae rhai yn cynnig cyfleusterau cyfrif cyfredol sy'n rhoi'r budd i chi o fynediad modern, electroneg i'ch arian.

Benthyciadau

Cofiwch bob amser, mae'n rhaid talu am fenthyg; mae'r llog yr ydych yn ei dalu yn cael ei alw'n gyfradd canrannol blynyddol (APR)

Mae benthyciad gan unrhyw Fanc rheoledig, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd yn rhatach na gan fenthyciwr arian preifat neu fenthyciwr stepen drws.

Fe all credyd gan fenthyciwr stepen drws fod ar gael yn hawdd a chyfleus, ond fe allwch ddarganfod eich hunan mewn cylch o ddyled ddi-ben-draw.

Y Cyngor yw SIOPA O GWMPAS!

Cynilion

Rhoi ychydig o arian o'r neilltu yn rheolaidd yw'r ffordd orau o gynilo ar gyfer achlysuron arbennig ac eitemau drud. Mae Undebau Credyd yn rhoi cyfle i chi gynilo cyn lleied â £1 yr wythnos!



Delio gyda Dyled

Mae nifer o resymau pam y gallwch yn sydyn ddarganfod eich hunan mewn dyled. Nid oes gennych reolaeth tros lawer ohonynt. Maent yn digwydd. Mae crybwyll y gair 'dyled' yn gallu gwneud chi deimlo'n embaras, bryderus ac ofnus. Gall hyd yn oed gael effaith ar eich iechyd corfforol a meddyliol.

Fodd bynnag, nid oes raid iddo fod fel hyn!

Cymerwch olwg da ar eich sefyllfa ariannol. Ysgrifennwch faint o arian sydd gennych yn dod i mewn a gwnewch restr o beth yr ydych yn ei wario. Os oes gennych chi fwy o arian yn mynd allan na sy'n dod i mewn, rydym yn eich cynghori i gysylltu â'r Ganolfan Gynghori, neu ewch i **www.nationaldebtline.co.uk** neu ffoniwch 0800 8084000.

Pa un ai a ydych chi'n cynllunio symud i mewn i'ch cartref cyntaf neu yn symud i dy arall, fel arfer, mae'n broses drud. Felly, gwnewch i bob ceiniog gyfrif!



Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw faterion sydd yn y daflen wybodaeth hon, rydym wedi datblygu llyfryn newydd o'r enw *"Fy nghartref…. Mae pob ceiniog yn cyfrif'.* Gallwch ddod o hyd i gopi ar ein gwefannau.